# Cymunedau Creadigol AHRC

## Papur Cythrudd Polisi Datganoli

## *Perthyn*





Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE
DEC DARLINGTON ECONOMIC CAMPUS

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhan o gyfres o bedwar Papur Cythrudd ar Bolisi a gynhyrchwyd gan raglen Cymunedau Creadigol AHRC.

Mae’n cael ei lywio gan ein Labordai Polisi – cyfres o siopau polisi sy’n cael eu hwyluso’n greadigol gyda llywodraethau, llunwyr polisïau, cyfranogwyr traws-sector, cymunedau a phobl ifanc a gynhaliwyd ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a’r Awdurdodau â Meiri yn Lloegr.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno atebion polisi wedi'u creu ar y cyd â chyfranogwyr o'n Lab Polisi Gogledd-ddwyrain Lloegr yn Newcastle.

Mae ei awgrymiadau ar gyfer atebion yn canolbwyntio ar ffyrdd y gall Awdurdodau â Meiri ddefnyddio eu cyllidebau a’u pwerau diwylliant datganoledig newydd i ddatgloi arloesedd cynhwysol, i roi’r un cyfle i gael mynediad at ddiwylliant ac ymchwil ac i wella ymdeimlad o berthyn.

Gan helpu i gyflawni Cenadaethau Llywodraeth y DU ac agor cyfleoedd i bawb, mae’r argymhellion canlynol yn cyflwyno cynigion y gellir eu gweithredu ar gyfer llywodraethau datganoledig a chanolog y DU, Cyrff Hyd Braich a rhanddeiliaid traws-sector.



Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE
DEC DARLINGTON ECONOMIC CAMPUS

# Cenhadaeth Polisi: Perthyn

## Perthyn

Cadernid Cymdeithasol | Cysylltiadau â'r Gymuned

Cydlyniant | Hunaniaeth Ddinesig

Balchder mewn Lle

## Cyfleoedd

Symudedd Cymdeithasol | Cyd-greu | Creu lleoedd

Tegwch | Amrywiaeth a Chynhwysiant | Hygyrchedd

Chwaraeon a Chyfranogiad

## Heriau

Cynhwysiant economaidd-gymdeithasol

Rhwystrau Cymdeithasol | Cyllid

Daearyddiaeth Datganoli | Canoli

Ymgysylltu Tymor Hir | Capasiti

# Cyd-destun Polisi: Perthyn



Mae cyfle cyfartal ac ymdeimlad o berthyn i gymunedau yn ganolog i Gerrig Milltir Llywodraeth dan arweiniad Cenhadaeth y Blaid Lafur, tra bod maniffesto Llafur yn addo mynediad cyfartal at y celfyddydau a cherddoriaeth ac yn cydnabod bod diwylliant yn hanfodol er mwyn i blant a phobl ifanc ddatblygu creadigrwydd a dod o hyd i'w llais. Mae'r Ysgrifennydd Diwylliant wedi pwysleisio potensial cymdeithasol ac economaidd sectorau'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer adnewyddu cenedlaethol, gan gyhoeddi Cronfa Arts Everywhere gwerth £270 miliwn ar gyfer lleoliadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a'r sector treftadaeth i roi hwb i dwf, creu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu sgiliau creadigol a helpu i wneud pobl yn fwy balch o le maent yn byw ynddo.

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i ddatganoli ac adfer pŵer i gymunedau lleol ac i fynd i'r afael ag ansicrwydd economaidd yn y gwaith, gartref, mewn cymunedau ac o ran mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Drwy'r Cynllun Cymdogaethau, bydd rhaglen gwerth £1.5 biliwn yn buddsoddi mewn saith deg a phump o gymunedau dros y deng mlynedd nesaf i adfywio ardaloedd lleol drwy'r tri nod o lefydd llewyrchus, cymunedau cryfach ac adennill rheolaeth.

Mae Papur Gwyn Datganoli Lloegr yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth i ehangu a dyfnhau datganoli ar draws Lloegr, gan ddarparu ystod o bwerau newydd i Feiri ar draws cynllunio strategol, tai, trafnidiaeth a sgiliau. Mae'n amlinellu sut bydd y Llywodraeth yn ailadeiladu ac yn diwygio llywodraeth leol fel y sylfaen ar gyfer datganoli ac yn rhoi adnoddau cryfach i gymunedau lunio dyfodol eu hardaloedd lleol. Bydd Bil Datganoli Lloegr, a ddisgwylir yn 2026, yn cyflawni'r newidiadau hyn i'r gyfraith er mwyn gwireddu'r fframwaith datganoli.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau twf drwy setliadau integredig ar gyfer Awdurdodau â Meiri, gyda Chyllideb yr Hydref 2024 yn gweithredu setliadau ar gyfer Gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf o 2025-26, Gogledd-ddwyrain

Lloegr, De Swydd Efrog, Gorllewin Swydd Efrog a Rhanbarth Dinas Lerpwl o 2026-27, ac ymrwymiad i archwilio hyn ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf o 2026-27 ymlaen. Mae datganoli wedi rhoi mwy o reolaeth i Ogledd-ddwyrain Lloegr ar yrwyr allweddol twf lleol, gan gynnwys adfywio a thai fforddiadwy, system trafnidiaeth leol a chymorth sgiliau a chyflogaeth.

Mae buddsoddi mewn diwylliant yn flaenoriaeth allweddol ar draws Gogledd-ddwyrain Lloegr, gyda Chynllun Twf Lleol Gogledd-ddwyrain Lloegr yn tynnu sylw at gryfder a photensial y sector o ran twf. Mae'r Maer Kim McGuinness ac aelodau o Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr wedi rhoi'r sêl bendith i fuddsoddiad o £25 miliwn yn niwydiant sgrin y rhanbarth ac wedi ymrwymo i ddatblygu Canolfan Ysgrifennu a Chyhoeddi newydd yn Newcastle gydag Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr, Cyngor Dinas Newcastle a Phrifysgol Northumbria; i dyfu diwydiant cerddoriaeth y rhanbarth; ac i ariannu diwylliant, digwyddiadau a seilwaith.

Yng nghyd-destun wedi'r terfysgoedd, mae'n hanfodol ystyried colli balchder dinesig a deimlir gan rai cymunedau, sy'n gysylltiedig â dirywiad y stryd fawr a cholli diwydiannau traddodiadol, a gwerth diwylliant a threftadaeth i hunaniaeth gymunedol. Rhaid ystyried creu mannau ar gyfer cymunedau, meithrin perthnasoedd ystyrlon, blaenoriaethu cyllid datganoledig hygyrch, ac integreiddio awdurdodau lleol, Awdurdodau â Meiri a Llywodraeth genedlaethol, mewn perthynas ag ailadeiladu cydlyniant cymdeithasol a pherthyn.

Mae Lab Polisi Gogledd-ddwyrain Lloegr Cymunedau Creadigol AHRC wedi nodi cyfleoedd ar gyfer perthyn, cydlyniant cymunedol a chadernid cymdeithasol yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.



# Cyd-destun Datganoli: Gogledd-ddwyrain Lloegr

Mae gan Ogledd-ddwyrain Lloegr ddwy ardal ddatganoledig: Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr (Awdurdod Cyfun Gogledd Tyne gynt, 2019-2024) ac Awdurdod Cyfun Dyffryn Tees.

Nod Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr yw cysylltu cymunedau, rhoi'r sgiliau i bobl lwyddo a gwella lles i bawb - fel bod Gogledd-ddwyrain Lloegr yn cael ei gydnabod fel lle eithriadol i ymweld ag ef, ac i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo. Mae Deeper Devolution Deal Gogledd-ddwyrain Lloegr 2024 yn darparu mwy o reolaeth i Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain ar yrwyr allweddol twf lleol, gan gynnwys adfywio a thai fforddiadwy, y system trafnidiaeth leol a chymorth sgiliau a chyflogaeth. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, bydd Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr yn sefydlu Catalydd y Sector Creadigol a Diwylliant i ddenu buddsoddiad a chefnogi twf yn y sectorau diwylliannol a chreadigol.

Mae Bargen Ddatganoli Awdurdod Cyfun Dyffryn Tees yn darparu ar gyfer trosglwyddo pwerau sylweddol dros gyflogaeth a sgiliau, trafnidiaeth, cynllunio a buddsoddi o'r Llywodraeth ganolog i Ddyffryn Tees. Mae'n galluogi Awdurdod Cyfun Dyffryn Tees i greu Cronfa Fuddsoddi, drwy ddyraniad cychwynnol o 30 mlynedd o gyllid ar gyfer cyllid cyfalaf o £15 miliwn y flwyddyn o leiaf. Roedd Cynllun Economaidd Strategol Awdurdod Cyfun Dyffryn Tees yn nodi bod "Digidol a Chreadigol" a "Diwylliant a Hamdden" yn ddau o'r saith sector allweddol sy'n hanfodol o ran rhoi hwb i'r economi ranbarthol a chynyddu ystod a nifer y swyddi. I gefnogi'r sectorau hyn, maent wedi sefydlu Rhaglen Twf gwerth £20.5 miliwn ar gyfer yr Economïau Creadigol ac Ymwelwyr. Maent hefyd yn gweithio fel rhan o Bartneriaeth Diwydiannau Sgrin Gogledd-ddwyrain Lloegr gydag Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr, gan ganolbwyntio ar wella'r arlwy diwydiannau teledu a ffilm yn dilyn ymrwymiad o £25 miliwn gan y BBC i Ogledd-ddwyrain Lloegr.



# Awgrymiadau ar gyfer Datrysiad Polisi

## Buddsoddi mewn Seilwaith

**Buddsoddi gwariant datganoledig mewn seilwaith cymdeithasol a chymunedol drwy frocera partneriaethau traws-sector newydd ac offerynnau buddsoddi**

### Y prif bwynt i'w gofio

Annog rhanddeiliaid traws-sectorau i sbarduno a chreu seilwaith cymdeithasol a chymunedol – y sefydliadau, y llefydd a'r mannau sy'n hwyluso bywyd cymunedol sy'n cael ei rannu – i ddod â phobl at ei gilydd a chyfrannu at ddatganoli sy'n cael ei arwain gan y gymuned.

Nid oes gan lawer o gymunedau lleol unman i gyfarfod ac mae angen mannau a rennir arnynt i ffynnu a chysylltu. Gall mannau diwylliannol fel theatrau, orielau, llyfrgelloedd, neuaddau cymunedol a chanolfannau chwaraeon fod yn rhan bwysig yn y seilwaith cymdeithasol, drwy adeiladu rhwydwaith o fannau sy'n dod â phobl at ei gilydd.

Drwy gydweithio ar draws sectorau ac amrywiaeth o offerynnau buddsoddi i gymell a diogelu buddsoddiad diwylliant yn y lleoliadau hyn – a thrwy gefnogi stiwardiaeth gymunedol i'w gwneud yn fwy hygyrch – gall mannau diwylliannol ddod yn safleoedd lle mae cymunedau'n dod at ei gilydd i siarad â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch datganoli sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Bydd hyrwyddo effeithiol i sicrhau ymgysylltiad yn cefnogi ymdeimlad gwell o berthyn i gymdeithas sifil a datblygu sgiliau newydd. Bydd hefyd yn helpu i chwalu seilos rhwng sectorau, gwella'r gwaith o rannu data ac arwain at ganlyniadau gwell ar draws economïau lleol, iechyd a democratiaeth.

Dylai'r awgrym hwn o'r ateb gynnwys pob lefel o lywodraeth – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol – yn ogystal â'r sector gwirfoddol, mudiadau cymunedol a mannau diwylliannol, drwy weithio gyda'i gilydd mewn unedau polisi newydd i sicrhau ymateb strategol wedi'i gydlynu a'i gydgysylltu.



# Polisi Diwylliant wedi'i Gyd-greu

## Cynnwys cyd-greu cymunedol yn y gwaith o lunio polisïau datganoledig: dylai datganoli sy'n cael ei arwain gan y gymuned gael ei fynegi a'i alluogi gan fframwaith gwell ar gyfer ymgysylltu dinesig mewn lleoliadau datganoledig

### Y prif bwynt i'w gofio



Drwy harneisio diwylliant a hunaniaeth ddinesig fel dulliau i ddatblygu perthnasoedd yn arafach ac yn well ar draws grwpiau amrywiol mewn mannau a rennir, gallwn dyfu rhaglenni sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n casglu data cyd-greu i lywio'r gwaith o lunio polisïau datganoledig yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol grymuso cymunedau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu. Mae cyd-greu yn cynnig dull cynhwysol sy'n sicrhau cydraddoldeb profiad ac yn caniatáu i leisiau gael eu clywed sydd fel arfer ar goll o sgyrsiau.

Mae angen lle i fod yn hyblyg o ran dulliau gweithredu, cyfathrebu a chefnogaeth gan Awdurdodau â Meiri, Llywodraeth ganolog a chyllidwyr eraill i fabwysiadu dulliau gwahanol o feithrin perthynas â chymunedau mewn lleoliadau datganoledig, a rhyngddynt. Dylai darpariaeth strategol gan awdurdodau lleol, Awdurdodau â Meiri a chyllidwyr roi blaenoriaeth i ymgorffori arweinyddiaeth a chynrychiolaeth amrywiol ar fyrddau a phaneli.

Byddai fframwaith cadarn ar gyfer datganoli diwylliannol yn sicrhau gwaith strategol newydd, bod capasiti'n cael ei greu a bod yr hyn a ddysgir a'r arferion gorau'n cael eu rhannu ar draws Awdurdodau â Meiri a Chyrff Hyd Braich i oresgyn y risg o feddwl yn ynysig. Dylai hyn gynnwys creu Comisiwn Datganoli Diwylliannol sy'n adrodd i Feiri; Pennaeth Datganoli yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr ac arweinwyr datganoli penodol ym mhob diwylliant Corff Hyd Braich; a gweithio strategol rhwng Awdurdodau â Meiri a Chyrff Hyd Braich i gydlynu'r gwaith o dreialu cyllidebau a chyfrifoldebau Cyrff Hyd Braich datganoledig.

Dylai rhaglenni diwylliannol datganoledig gael eu harwain gan ganlyniadau a'u cyd-greu gyda chymunedau lleol. Rhaid i Awdurdodau â Meiri esblygu dulliau o gasglu, rhannu a defnyddio data diwylliant, a sicrhau bod metrigau a mesurau gwerthuso ar waith, i ddileu rhwystrau i gynhwysiant a llywio'r gwaith o lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwariant ar ddiwylliant datganoledig.

# Setliadau Integredig yn Gwella Cadernid

**Gall defnydd arloesol o setliadau integredig yr Awdurdod â Meiri a chyllid datganoledig alluogi buddsoddiad tymor hwy**



## Y prif bwynt i'w gofio

Dylai Awdurdodau â Meiri ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth ganolog i sefydlu newid cam nesaf i sicrhau effeithiau teg, hygyrch a chynaliadwy hirdymor ar y llu o ganlyniadau y gall diwylliant eu cyflawni.

Mae setliadau integredig yn cefnogi Awdurdodau â Meiri i sicrhau twf. Byddai cyflawni mewn diwylliant a chymunedau fel rhan o hyn yn cryfhau twf lleol a lle drwy gefnogi swyddi, denu buddsoddiad preifat a gwella delwedd ardaloedd fel llefydd i fyw a gweithio, i ailadeiladu cydlyniant cymdeithasol a pherthyn. Dylai hyn fod yn rhan allweddol o gytundeb setliadau integredig pob Awdurdod â Maer.

Drwy setliadau integredig a chyllid datganoledig, mae Awdurdodau â Meiri mewn sefyllfa unigryw i ddod o hyd i atebion newydd i'r heriau sy'n cael eu cydnabod o ran cyfleoedd cyllido tymor byr, cystadleuol artiffisial, sy'n addas i bawb ac sy'n cyfyngu ar ddatblygu diwylliant. Gall Gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf fodelu arfer gorau gyda'r dull hwn, gyda'r setliad integredig cyntaf. Drwy fentrau sy'n cael eu hariannu'n llawn, adfer costau llawn, potiau cyllid llai sy'n arloesol, cyllid sbarduno, a mwy o bwerau cyllido ymchwil a datblygu datganoledig, byddai wynebau newydd yn cael eu hannog i ymgysylltu – a byddai'n ail-gydbwyso pa gymunedau creadigol sy'n gallu cael gafael ar gyllid.

Dylai Awdurdodau â Meiri heb setliadau integredig ystyried ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r cyllid datganoledig presennol i gefnogi diwylliant a chymunedau – gan ddangos ymrwymiad i dwf lleol a lle a chryfhau'r enw da ar gyfer cymhwysedd setliadau integredig yn y dyfodol.

Gallai Awdurdodau â Meiri hefyd ddefnyddio'r cyllid datganoledig hwn i helpu sbarduno buddsoddiad y sector preifat ar gyfer diwylliant, gan greu rhagor o gyfleoedd i gymunedau creadigol wireddu eu potensial.

Byddai rhwystrau i gymunedau amrywiol sy'n gwneud cais am gyllid yn cael eu lleihau drwy symleiddio prosesau cyllido, cyflwyno hyblygrwydd cyllido (gan gynnwys dileu terfynau amser ar wario grantiau) a dulliau cyllido'r loteri, gofynion adrodd symlach, iaith hygyrch, sicrhau cyrhaeddiad i grwpiau cymunedol bach, cynrychiolaeth gymunedol ar baneli gwneud penderfyniadau, ac ymgynghori â'r gymuned. Byddai'r camau hyn yn arwain at dirwedd gyllido sy'n fwy cynhwysol, teg ac effeithiol a mwy o ymdeimlad o berthyn i gymuned.

# Gwrthdroi Pwerau Polisi

**Gall llwybrau rhannu gwybodaeth o sectorau cymunedol a diwylliannol at Awdurdodau â Meiri sicrhau bod anghenion y gymuned leol yn cael sylw wrth lunio polisïau llywodraeth ganolog a rhanbarthol**

## Y prif bwynt i'w gofio

Dylai Awdurdodau â Meiri fanteisio ar wybodaeth leol fel rhan o'r broses o lunio polisïau datganoledig. Dylai Llywodraeth Ganolog ddarparu adnoddau i dimau prosiect weithio ar draws Awdurdodau â Meiri a'r Llywodraeth ganolog, i rannu gwybodaeth a all fwydo i mewn i bolisi cenedlaethol.

Dylai Awdurdodau â Meiri weithio'n agos gyda'u cymunedau a'u sector diwylliant i ddeall anghenion a chyfleoedd lleol yn well. Bydd cyd-ddylunio llwybrau rhannu gwybodaeth newydd o gymunedau at Awdurdodau â Meiri yn ysgogi perthnasoedd gyda llunwyr polisi cenedlaethol, i annog buddsoddiad penodol mewn perthyn a diwylliant i gymunedau ar draws y ddaearyddiaeth ddatganoledig.

Mae hyn yn gofyn am gyllid tymor hir a chynllunio strategol ar bob lefel o'r Llywodraeth, mewn dull gweithredu sy'n cael ei arwain a'i ariannu gan Lywodraeth ganolog i sicrhau defnydd, y gallu i gyflawni a hyfywedd. Byddai hyn yn galluogi ymgysylltu ystyrlon rhwng awdurdodau lleol a chymunedau lleol, a thimau prosiect integredig ar draws yr Awdurdodau â Meiri a'r Llywodraeth ganolog.



Dylai gynnwys rhannu gwybodaeth ddwy ffordd a mesur effaith. Dylai ymgorffori secondio o'r gwasanaeth sifil i Awdurdodau â Meiri i gofnodi mecanweithiau gwybodaeth lleol i newid ffyrdd sefydliadol o feddwl, a sicrhau darpariaeth bwrpasol i anghenion cymunedau lleol.

# Straeon Newydd am Le

## Dulliau ymchwil cyfranogol newydd rhwng sefydliadau diwylliant, ymarferwyr creadigol, diwydiant, cymunedau a phrifysgolion i adrodd straeon newydd am lefydd datganoledig

### Y prif bwynt i'w gofio

Byddai dulliau wedi'u cyd-greu o ymdrin â diwylliant ac ymchwil a datblygu a ariennir drwy fuddsoddiad mewn diwylliant datganoledig yn helpu Awdurdodau â Meiri i wella ymdeimlad o berthyn, annog cydlyniant cymunedol a chryfhau cadernid cymdeithasol, drwy straeon newydd am le a hunaniaeth ddiwylliannol.

Mae gan sefydliadau diwylliant ac ymarferwyr diwylliannol a chreadigol rolau allweddol i'w chwarae mewn cymunedau, ymchwil a datblygu ac arloesedd drwy gyd-greu straeon lleol am hunaniaeth ddiwylliannol, perthyn a lle. Er mwyn galluogi rhwydweithiau newydd o ymarfer creadigol i ffynnu mewn cymunedau ac ymchwil a datblygu, rhaid i sefydliadau diwylliant ystyried ailddiffinio eu hagwedd at ddiwylliant a chefnogi llwybrau ymarferwyr diwylliannol a chreadigol. Byddai datblygu partneriaethau newydd a ffyrdd newydd o weithio rhwng sefydliadau diwylliant, ymarferwyr creadigol, diwydiannau creadigol, cymunedau a phrifysgolion yn galluogi dulliau ac allbynnau ymchwil mwy cynhwysol a chyfranogol – gan gynnwys naratifau stori drwy ffilm.

Dylai Awdurdodau â Meiri ryddhau cyllid diwylliant i ddatblygu'r partneriaethau hyn, gyda strategaethau cyllido tymor hirach ar waith i sicrhau cynaliadwyedd, buddsoddiad parhaus ac ymgysylltu. Byddai hyn yn annog naratifau diwylliant cyfryngau cymysg newydd a mwy cynhwysol, gyda lleisiau amrywiol yn cael eu cynnwys wrth adrodd straeon am le, i rymuso cymunedau i gymryd rhan o'r gwaelod i fyny. Mae hyn yn cefnogi eu cenhadaeth i gryfhau cadernid cymdeithasol a pherthyn.



Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE
DEC DARLINGTON ECONOMIC CAMPUS

## Cymunedau Creadigol AHRC

Mae Cymunedau Creadigol yn rhaglen ymchwil bwysig a ariennir gan AHRC ac a gynhelir gan Brifysgol Northumbria, sy'n edrych ar sut gall diwylliant sydd wedi'i greu ar y cyd wella ymdeimlad o berthyn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, cyflawni datganoli, a chwalu rhwystrau i gyfleoedd gyda chymunedau mewn lleoliadau datganoledig ar draws pedair gwlad y DU.

**Awduron:** Helen Apsey, Arweinydd Polisi | E-bost: helen.apsey@northumbria.ac.uk
Yr Athro Katy Shaw, Cyfarwyddwr | E-bost: katy3.shaw@northumbria.ac.uk

Mae Cymunedau Creadigol yn cael ei gefnogi gan fwrdd rhaglen yn AHRC a Bwrdd Cynghori allanol. Rydym yn ddiolchgar am eu haelioni o ran amser ac am eu hadborth parhaus.

Mae'r tîm yn diolch i gydweithwyr ar Gampws Economaidd Darlington ac i'r amrywiaeth eang o gyfranogwyr traws-sector yn ein Lab Polisi Gogledd-ddwyrain Lloegr, a wnaeth amser i rannu eu profiadau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Cafodd yr holl weithwyr llawrydd a gymerodd ran gynnig tâl am eu hamser. Mae eu gwaith wedi bod yn amhrisiadwy o ran cynhyrchu canfyddiadau ac argymhellion.

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) a'i gynnal ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.